



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR
26 Chwefror 2020

Adroddiad gan:	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli
Testun:	Grant Gwella Addysg 2020/21

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor o ran y Grant Gwella Addysg ar gyfer 2020/21.

2.0 Cefndir

2.1 Mae GwE wedi derbyn dyraniad dangosol o £27,103,164 ar gyfer y Grant Gwella Addysg (GGA) yn 2020/21. Mae hyn yn gynydd o ran arian parod o £524,893 o gymharu â 2019/20.

2.2 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod y GGA ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cynnydd o £2.5m (Cymru gyfan) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn oddeutu £560,000 i GwE.

2.3 Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb derfynol (ynghyd â manylion grantiau) ar 25 Chwefror 2020.

2.4 Mae'r amodau a'r telerau presennol (2019/20) yn nodi bod Ymgynghorwyr Her yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith tuag at welliant a blaenoriaethau lleol.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir bod y proffil gwariant ar gyfer 2020/21 yn aros fel un 2019/20.

3.2 Mae angen adnoddau ychwanegol (gan GwE) fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam. Amcan bris hyn yw oddeutu £303,450, fydd yn cyfrannu at:

- yr Arweinydd Strategol yn cefnogi'r Arweinydd Craidd
- Uwch YCG i ysgolion categori statudol
- Cymorth craidd unigryw pellach i ysgolion categori statudol:
 - Mathemateg x3 yr wythnos yn cynyddu i 5 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr haf
 - Saesneg cyfwerth â 1 diwrnod yr wythnos
 - Gwyddoniaeth cyfwerth â 1 diwrnod yr wythnos
- Cymorth unigryw pellach er mwyn rhoi strategaethau i ysgolion wella'r ddarpariaeth ar gyfer:
 - disgyblion bregus
 - MATH
- Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi unigryw i uwch arweinwyr mewn 6 ysgol nad ydynt mewn categori [ac o bosib i garfan o arweinwyr canol a nodwyd]

3.3 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor ystyried ffynhonnell yr adnoddau ychwanegol er mwyn ariannu'r gost ychwanegol hon.

3.4 Dyma'r opsiynau i'w hystyried (yn amodol ar y telerau a'r amodau y cyfeirir atynt yn 2.4):

- 3.4.1 Opsiwn 1: Ariannu'n llawn o gyllid ychwanegol y GGA ar gyfer 2020/21
- 3.4.2 Opsiwn 2: Ariannu'n llawn o'r GGA drwy ail flaenoriaethu gwariant presennol y GGA
- 3.4.3 Opsiwn 3: Ariannu'n rhannol o gyllid ychwanegol y GGA ar gyfer 2020/21
- 3.4.4 Opsiwn 4: Ariannu'n rhannol o'r GGA drwy ail flaenoriaethu gwariant presennol y GGA
- 3.4.5 Opsiwn 5: Peidio ag ariannu, Wrecsam i ariannu.

3.5 Nodwyd bod angen cryfhau defnydd ysgolion o'r Grant Gwella Addysg yn 2020/21.

4.0 Argymhelliad

4.1 Argymhelliad 1: Cytuno ar yr opsiwn a ffefirir o ran ariannu'r adnoddau ychwanegol ar gyfer CGOA Wrecsam.

4.2 Argymhelliad 2: Bod y proffil gwariant ar gyfer 2020/21 yn aros fel un 2019/20, ond ystyried penderfyniad y Cydbwyllgor ar argymhelliad 1; gyda Bwrdd Rheoli GwE yn cytuno ar ddsbarthiad balans y cynnydd o ran arian parod (pan dderbynnir yr amodau a'r telerau).

4.3 Argymhelliad 3: Ni fydd cyllid GGA ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder yn cael ei ryddhau nes bod eu cynllun wedi'i gymeradwyo.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Fel y nodir uchod.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Bu ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE ac mae'r Bwrdd wedi gofyn penderfyniad y Cyd-bwyllgor.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Cyflwynir unrhyw sylwadau ar briodoldeb yn y cyfarfod

Swyddog Cyllid Statudol:

Cyflwynir sylwadau ar lafar, fel bo angen, yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.